

Dros Dro

Wedi ei chyllido â grant

Athro/Athrawes leithoedd/ Y Dyniaethau

Tri diwrnod (ond dim o anghenrheidrwydd yr un tri diwrnod dros bythefnos)

Prif Gyfrifoldebau:

- Darparu a chyfrannu at addysgu llythrennedd o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Llinell yn unol â'r deunyddiau a chynlluniau gwaith addysgu a dysgu priodol.
- Gwerthuso ac asesu gwaith disgyblion, ac adrodd ar gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yn unol â pholisi'r ysgol.
- Darparu a chyfrannu at ddyletswyddau goruchwyllo, trefniadau a dyletswyddau gweinyddol a materion bugeiliol a chwricwlaidd yn unol â pholisiau'r ysgol
- Cyfrannu at waith yr ysgol gyfan a grwpiau.
- Paratoi y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr MAT a darparu ar gyfer y gweithgareddau a drefnir gan rwydwaith SEREN.
- Cefnogi sgiliau llythrennedd grwpiau o ddysgwyr er mwyn cyflymu eu cynnydd ar draws y pynciau, ac yn arbennig disgyblion mewn blwyddyn arholiad

Cyfrifoldebau dydd i ddydd:

- Dysgu holl feysydd perthnasol y cwricwlwm (leithoedd a'r Dyniaethau)
- Trefnu dosbarthiadau a chymryd cyfrifoldeb am gynnydd gwersi
- Cynnal disgyblaeth tra'n ysgogi disgyblion a hwyluso eu datblygiad i gyrraedd targedau a gytunwyd arnynt
- Cynllunio dosbarthiadau gan baratoi, cyflwyno a marcio mewn ffordd ddychmygus, gadarnhaol, ysgogol a gweithredol, gan hwyluso datblygiad a diwallu anghenion yr ystod gyfan o allu yn y dosbarth
- Adolygu dosbarthiadau a dulliau addysgu yn rheolaidd

- Cynnal safonau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys asesu a chofnodi datblygiad disgyblion, a chynnwys, fel y bo'n berthnasol mewnosodwch e.e. Penaethiad Adran, neu Uwch Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Darparu adborth am gynnydd disgyblion yn ôl yr angen
- Cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch yn yr ystafell ddosbarth ac o fewn amgylchedd yr ysgol
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd cydweithredol gyda'r disgyblion a'u rhieni / gwarcheidwaid
- Mynychu cyfarfodydd / nosweithiau rhieni i drafod cynnydd disgyblion.
- Gweithio gyda rhieni a llywodraethwyr i gynyddu eu cysylltiad i'r eithaf gyda'r ysgol, a datblygu adnoddau ar eu cyfer
- Cysylltu â a chydweithio gydag eraill, megis mewnosod e.e. ALNCO / Rheolwyr Cynnydd
- Cwrdd â thargedau unigol a chyfrannu at dargedau'r tîm cyfan
- Cefnogi cydweithwyr a chyfrannu at weithrediad llyfn y tîm a'r ysgol
- Dilyn a hyrwyddo holl werthoedd, polisiau a gweithdrefnau'r ysgol
- Cynnal datblygiad proffesiynol personol a gweithredu'r cwricwlwm a gytunwyd arno. Rhoi ar waith syniadau addysgol cyfredol trwy astudiaethau personol, mynychu cyrsiau a gweithdai ynghyd â chyfarfodydd ac adolygiadau

Mae'r dyletswyddau a amlinellir yn y disgrifiad swydd hwn yn ychwanegol at y rhai a gwmpesir gan y Ddogfen Gyflog ac Amodau Athrawon berthnasol ddiweddaraf fel y'i haddaswyd gan eich Rheolwr Llinell.

Byddwch yn gweithio o fewn fframwaith deddfwriaeth genedlaethol, gan gynnwys Deddfau Addysg o 1994 (a dogfennau Deddf Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 1987 a 1995), fel y'u hadolygir a'u diwygiwyd yn rheolaidd.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd disgwyl i chi gyflawni dyletswyddau eraill / bod yn rhan o brosiectau arbennig fel sy'n ofynnol ac yn rhesymol yn eich swydd.

Rydych chi'n gyfrifol am eich llwyth gwaith a ddyrannwyd a rhaid i chi gyrraedd yr holl dargedau fel y cytunwyd â'ch Rheolwr Llinell. Rhaid i chi gyfrannu tuag at weithrediad llyfn cyffredinol yr ysgol.

Mae'r rôl yn gofyn am weithio fel rhan o dîm cyfan yr ysgol ac o'r herwydd mae'n gofyn i chi gyflawni tasgau rhesymol sy'n ofynnol, yn ôl yr angen, er mwyn cynnal, hyrwyddo, datblygu ac ehangu'r ysgol, ei disgyblion a'i diddordebau yn gyffredinol.

Rhaid i chi gyflawni eich dyletswyddau hyd eithaf eich gallu, gan ystyried anghenion eich cydweithwyr, yr ysgol a'i disgyblion. Rhaid i chi ufuddhau i bob gorchymyn cyfreithlon a rhesymol a roddir i chi a chydymffurfio â rheolau, gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol.

Nodweddion a rhinweddau hanfodol ar gyfer y rôl

- amodol ar ddatgeliad GDG (CRB) Lefel Uwch
- sgiliau dadansoddi, rhyngpersonol, trefnu, arsylwi a chyfathrebu rhagorol
- bod â chymhelliant ac ymroddiad i'ch galwedigaeth
- cyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, ac yn chwaraewr tîm
- yn rhoi sylw da i fanylion
- arddangos sgiliau rheoli dosbarth ac amser
- bod yn hyblyg ac yn ymatebol i adborth

CROESAWIR CEISIADAU O'R SECTORAU CYNRADD AC UWCHRADD.

ANOGIR CEISIADAU GAN ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO